Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024

## Cryfhau ymddiriedaeth mewn archwilio

Tachwedd 2024

Mae'r Adroddiad Ansawdd Archwilio hwn yn amlinellu ein trefniadau ansawdd archwilio a'n hymrwymiad diwyro i ddarparu a buddsoddi mewn gwasanaethau archwilio o ansawdd da. Mae'n rhoi darlun eglur i'r cyrff a archwilir gennym, y cyhoedd yn gyffredinol a'r Pwyllgor Cyllid o'r mesurau cadarn a roddir ar waith gennym i sicrhau'r lefelau uchaf o uniondeb a rhagoriaeth. Mae'r adroddiad yn manylu ar ganlyniadau ein gweithgareddau monitro ar gyfer sampl o archwiliadau o gyfrifon sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2022-23, ynghyd â sampl o adroddiadau archwilio perfformiad a gyhoeddwyd ym mlwyddyn galendr 2023 ac yn gynnar ym mlwyddyn galendr 2024.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'i gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn 02920 320 500
E-bost post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru
Twitter @WalesAudit

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn adnabod ffyrdd i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cynorthwyo'r Senedd a chynrychiolwyr etholedig lleol i graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus. Rydym yn gwbl annibynnol ar lywodraeth.

## Ein diben

- Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda
- Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario
- Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

## Ein gweledigaeth

### Cynyddu ein heffaith drwy:

- Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad
- Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad, a pherthnasedd
- Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Ein meysydd ffocws

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24**

# Uchafbwyntiau’r Adroddiad

## Trefniadau Ansawdd Archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru’n un llwyr. Rydym yn defnyddio **model tair llinell sicrwydd** i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn:

1. Ein Pobl
2. Cyflawni Ansawdd
3. Sicrwydd Annibynnol

## Deilliannau Ansawdd Archwilio

**Targed Wedi’i Gyrraedd:** Fe wnaeth 100% o’r 7 ffeil a ddewiswyd ar gyfer adolygiadau oer allanol gyrraedd targed ein DPA o 2 (derbyniol ar y cyfan) neu uwch

## Y Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (ISQM 1)

Buom yn **llwyddiannus wrth weithredu** safon ansawdd newydd i wella ein system rheoli ansawdd.

Daeth ein hadolygwyr allanol annibynnol i’r casgliad bod y System Rheoli Ansawdd **i’w gweld yn briodol ar y cyfan** i faint a natur y sefydliad

## Looking Forward

Rydym yn parhau i fonitro a oes angen **datblygiadau** pellach i’n model tair llinell sicrwydd.

Mae meysydd posibl i’w datblygu’n cynnwys adolygu ein **model cymorth** technegol ar gyfer cyfrifon; **awtomeiddio platfformau**; ac ystyried a allwn ac a ddylem ni **ddefnyddio AI** i wella ein gwaith a’n heffaith.

# Cynnwys


Meithrin Ymddiriedaeth a Hyder Parhaus mewn Ansawdd 6

Ansawdd Archwilio: Datblygu Map Ffordd ar gyfer Llwyddiant Parhaus 8

Sylwebaeth Annibynnol s 9

Rhan 1: Trosolwg o Archwilio Cymru 10

Rhan 2: Cyflawni ansawdd archwilio 14

Rhan 3: Deilliannau ansawdd archwilio 35

Eich cefnogi chi 40

# Meithrin Ymddiriedaeth a Hyder Parhaus mewn Ansawdd

Yn nhirwedd y sector cyhoeddus heddiw, sy’n esblygu’n gyflym, ni ellir gorddatgan pwysigrwydd ansawdd archwilio. Mae’r sector cyhoeddus, cwmnïau’r DU ac unigolion ar draws cymdeithas yn dal i wynebu tryblith ac ansicrwydd mawr: o newid hinsawdd i darfu digidol; o bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus i olion gweddilliol chwyddiant a chyfraddau llog uchel; ac, o’r newid pwyslais gan lywodraeth newydd y DU i ansicrwydd etholiadau yng Nghymru a diwygio’r Senedd yn 2026.

Wrth wraidd ein hymrwymiad i bobl Cymru mae cred ddiwyro y bydd archwilio’n dal i fod â rôl sylweddol wrth ddwyn cyrff cyhoeddus Cymru i gyfrif yn wyneb yr heriau hyn: ymrwymiad a danategir gan egwyddorion ymddiriedaeth, hyder a thryloywder.

Mae’r rhageiriau i’n Hadroddiadau Ansawdd Archwilio dros y tair blynedd ddiwethaf yn croniclo’r broses o ddiwygio’r diwydiant archwilio a oedd yn yr arfaeth i ddechrau, ac y bu oedi sylweddol gyda hi’n ddiweddarach. Ym mis Gorffennaf 2024, fe gyhoeddodd y Llywodraeth newydd, trwy Araith y Brenin, ei bod yn bwriadu cyflwyno Bil Diwygio Archwilio a Llywodraethu drafft gerbron. Yn niffyg unrhyw fanylder sylweddol, nid yw’n glir sut y bydd deddf newydd yn effeithio’n uniongyrchol ar Archwilio Cymru.

Fodd bynnag, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i roi’r arferion proffesiynol gorau ar waith yn ein holl waith i sicrhau bod ein hansawdd yn dal i fod o safon uchel; bod ein gwaith yn dal i gael effaith fawr; ac, fel sefydliad, ein bod yn parhau i gynnig gwerth am arian i drethdalwyr Cymru.

I wneud hyn, rydym ni felly’n creu bod rhaid i ni fod:

- yn sefydliad sy’n dysgu: un sy’n agored i syniadau newydd; sy’n defnyddio prosesau ansawdd a phrosesau eraill i barhau i esblygu; ac sydd ag arweinyddiaeth sy’n atgyfnerthu dysgu – un sy’n cofleidio diwylliant o wella’n barhaus ac sy’n ein galluogi i addasu ac ymateb i’n tirwedd sy’n esblygu’n gyflym.
- yn barod i fanteisio, yn fodlon manteisio ac yn gallu manteisio’n ddiogel ar ddatblygiadau technolegol ar draws amryw ffiniau digidol, gan gynnwys dadansoddeg data; deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol; ac awtomeiddio.
- yn gallu ymgodymu â chymhlethdodau’r dirwedd archwilio fodern gyda gweithlu amrywiol, medrus ac ystwyth. Rhaid i ni allu denu, datblygu a chadw gweithlu a sicrhau ei fod yn cael cymorth da i ymateb i’r heriau yr ydym yn eu hwynebu.

Rydym yn dal i fod yn falch, fel y dylem fod, o’n model archwilio ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn ddiwyro yn ein hymrwymiad i ansawdd archwilio.
Er mwyn i ni feithrin ymddiriedaeth a hyder parhaus mewn ansawdd rhaid i ni barhau â’n hymdrechion ac adnewyddu ein hymdrechion i gofleidio’r arfer o ddysgu’n barhaus; harneisio grym technoleg ddigidol; a buddsoddi yn ein gweithlu a’i ddatblygu.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Ian Rees**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Ansawdd Archwilio: Datblygu Map Ffordd ar gyfer Llwyddiant Parhaus

Fy rôl i fel Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio yw sefydlu trefniadau i gyrraedd y safonau uchaf o ran arfer proffesiynol rhyngwladol a chreu amgylchedd y gall ansawdd archwilio ffynnu ynddo.

Yn erbyn cefnlen newidiadau sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf i'n dulliau archwilio, roeddwn wrth fy modd gyda deilliant canlyniadau adolygu ffeiliau QAD a grynhoir yn **Rhan 3** o'r Adroddiad: gyda 100% o'r ffeiliau a adolygwyd yn cyrraedd ein targed ansawdd.

Mae'r canlyniad hwn yn fwy aruthrol byth pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â'r heriau recriwtio a chadw yr ydym wedi'u profi yn ystod y cyfnod diweddar ynghyd â'n hawydd i ddychwelyd at amserlenni archwilio cyn y pandemig.

Mewn ymateb i'r heriau recriwtio yr ydym wedi'u profi rydym wedi bod yn llwyddiannus gan mwyaf o ran ehangu ein cynlluniau hyfforddeion a phrentisiaid ac o ran recriwtio i lenwi swyddi gwag. Mae hyn wedi gosod galwadau ychwanegol arnom i roi cymorth a hyfforddiant i gydweithwyr newydd, yr ydym yn buddsoddi ynddynt, sy'n dangos sut y mae'r tair llinell sicrwydd yn gweithredu gyda'i gilydd yn effeithiol.

Mae'r cyflawniadau hyn hefyd yn amlygu ymrwymiad, ymroddiad a phroffesiynoldeb ein staff, yr wyf yn ddiolchgar iawn amdanynt.

Roeddwn hefyd wrth fy modd ein bod wedi gallu cryfhau trefniadau ein Pwyllgor Ansawdd Archwilio trwy ehangu aelodaeth y Pwyllgor (o un i dri aelod annibynnol) gydag un o aelodau annibynnol y pwyllgor (Suzanne Jones) hefyd yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i wneud cynnydd mewn nifer o agweddau eraill, gan gynnwys:

- sefydlu Cynllun Strategol newydd ar gyfer Gweithlu Archwilio Cymru;
- datblygu trefniadau i ddod â'n gwaith ar gyfrifon a pherfformiad lleol ymlaen;
- gwaith parhaus i wreiddio safonau ISA 315 ac INTOSAI yn llawn ac i wireddu arbedion effeithlonrwydd o roi'r safonau newydd hyn ar waith;
- gwaith parhaus i wreiddio prosesau rheoli risg ISQM 1 yn ein trefniadau yn Archwilio Cymru; a
- chynyddu'r ffocws ar ddadansoddi a deilliannau ariannol yn ein gwaith; datblygu dull gwell o gynnal adolygiadau dilynol o waith ac o gynnydd gydag argymhellion archwilio; a gwneud adroddiadau'n haws i'w darllen a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ein cynulleidfa.

Un o'r prif uchafbwyntiau i ni fel sefydliad yn 2024 oedd gweld cymaint o gydweithwyr yn dod ynghyd ym mis Ebrill ar gyfer ein cynhadledd staff cyfan, 'Paratoi ar gyfer ein Dyfodol', gyda nifer o drafodaethau bywiog a diddorol am drefn y diwydiant archwilio yn y dyfodol.

Rwy'n llwyr gefnogi a chytuno ag uchelgais Ian ac Adrian i ni fod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn un sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ein defnydd o dechnolegau digidol gyda chymorth gweithlu ystwyth a medrus.

I’r perwyl hwnnw rydym wedi dechrau gwaith ar ‘fap ffordd’ datblygu archwilio. Bydd y ‘map ffordd’ hwn yn dwyn ynghyd ddatblygiadau sy’n effeithio ar ein gwaith archwilio a’r ymateb y mae ei angen, gan gynnwys datblygu sgiliau a thechnoleg ddigidol yn y dyfodol; meysydd lle gallai fod angen buddsoddi; ynghyd â’n strategaeth gwireddu manteision.

Gan adeiladu ar y llwyddiannau yr wyf wedi’u hamlinellu a llwyddiannau eraill, rwy’n llwyr grediniol y bydd y ‘glasbrint’ yr ydym wrthi’n ei ddatblygu’n helpu i wireddu’r uchelgais a ddisgrifir gan Ian ac Adrian yn eu rhagair hwy: ‘Meithrin Ymddiriedaeth a Hyder Parhaus mewn Ansawdd’.



**Ann-Marie Harkin**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio

# Sylwebaeth Annibynnol

## Cyflwyniad

Rwy’n nodi isod yr adroddiad blynyddol y mae’n ofynnol i mi fel Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, ac aelod o’n Pwyllgor Ansawdd Archwilio, ei ddarparu ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar:

- effeithiolrwydd ein trefniadau ansawdd archwilio; a
- digonolrwydd adnoddau a neilltuwyd i’r trefniadau hynny.

Mae ansawdd archwilio’n greiddiol i bopeth y mae arnom eisiau ei gyflawni fel Archwilio Cymru a rhaid iddo aros felly. Mae'n hanfodol felly ein bod yn cynnal safonau uchel o ran ansawdd archwilio er mwyn inni ddiogelu a gwella ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol.

Felly, roeddwn wrth fy modd i gefnogi a chyfrannu at ein cynhadledd staff cyfan ym mis Ebrill eleni a oedd yn bwrw golwg ymlaen ac yn dwyn y teitl ‘Paratoi ar gyfer ein Dyfodol’, ac i dystio yn y gynhadledd i frwdfrydedd ac ymrwymiad eithriadol ein staff.

## Effeithiolrwydd y trefniadau

Credaf fod gennym drefniadau sydd wedi hen ennill eu plwyf i fonitro ansawdd ein gwaith archwilio, a'n bod yn gweithio'n barhaus i gryfhau'r trefniadau hynny. Rydym yn parhau i weithio gydag Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) hefyd i roi sicrwydd annibynnol angenrheidiol inni ynghylch ansawdd ein gwaith archwilio.

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi arsylwi ein bod wedi parhau i wreiddio dulliau archwilio newydd i gefnogi trylwyredd ac effeithlonrwydd ein gwaith archwilio, a ategwyd gan raglen barhaus o hyfforddiant a chanllawiau gweithredu technegol. Rwyf hefyd wedi nodi cynnydd pellach sy'n cael ei wneud o ran rhoi ein system rheoli ansawdd ar waith wrth i ni ymegnïo i wreiddio’r safon rheoli ansawdd archwilio (ISQM 1) (**paragraffau 86 i 94**) yn ein trefniadau ‘busnes fel arfer’.

Edrychaf ymlaen at fonitro'r datblygiadau hyn a datblygiadau eraill trwy'r Pwyllgor Ansawdd Archwilio.

## Digonolrwydd adnoddau

Amlinellais yn ein Hadroddiadau Ansawdd Archwilio 2022 a 2023 fy mod yn falch o weld y cynnydd da a oedd yn cael ei wneud ar draws ystod o fentrau pwysig oherwydd ein buddsoddiad mewn ansawdd archwilio.

Fodd bynnag, fel yr amlinellodd Suzanne yn ei hastudiaeth achos (**paragraff 83**), mae cyflymder y newid a lefel y newidiadau a disgwyliadau rheoleiddiol yn gosod gofynion ar ein trefniadau cymorth gyda galwadau cynyddol am fuddsoddi parhaus. Credaf ein bod yn cydnabod y pwysau hynny ac yn ceisio ymateb i’r gofynion hyn lle y bo hyn yn angenrheidiol.

Ar y cyfan, er bod heriau parhaus yn bodoli, credaf ein bod mewn sefyllfa dda i barhau i wneud cynnydd. Fodd bynnag, byddaf yn parhau i fonitro digonolrwydd ein trefniadau esblygol a'r adnoddau a neilltuir i gefnogi'r trefniadau hynny, ac i herio ac adrodd ar hynny fel y bo angen.



**Kevin Thomas**
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol

# Rhan 1: Trosolwg o Archwilio Cymru

## Ein diben yw sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda, egluro sut y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario, ac ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

1 Mae archwilio gweithgareddau llywodraeth a'r defnydd o arian cyhoeddus yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Mae archwilwyr yn gwneud eu gwaith ar ran y cyhoedd mewn ffordd sy'n wrthrychol a diduedd.

2 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y pleidleisir arno'n flynyddol gan y Senedd. Mae elfennau sylweddol o'r cyllid hwn yn cael eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi'i chyfansoddi fel bwrdd statudol, yn gyfrifol am ddarparu adnoddau, megis staff, i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac am fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

4 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £27 biliwn o incwm a gwariant, sy'n fwy na chwarter Cynnyrch Domestig Gros Cymru.

5 Mae Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli: Ein Strategaeth 2022-27 yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei ddilyn tuag at wireddu ein potensial llawn fel sbardun ar gyfer newid a gwelliant wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd yng Nghymru. Trwy ein strategaeth rydym yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel;
- dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu; a
- diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.

## Rydym yn gwneud gwaith archwilio lleol a chenedlaethol ar draws ystod eang o gyrff cyhoeddus

6 Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn adnabod ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cynorthwyo'r Senedd, cynrychiolwyr lleol etholedig a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn y cyrff a archwilir gennym i graffu'n effeithiol ar arian cyhoeddus.

7 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol. Gellir arfer y swyddogaethau hyn ar y cyd os oes angen, ar draws

gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.

8 Rydym hefyd yn adnabod arfer da ar draws holl ehangder ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hwn trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.

9 Rydym yn gwneud ein gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio’r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y dylai’r swyddogaeth archwilio a swyddogaethau penodol eraill gael eu cyflawni ac yn ymgorffori'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried yn arfer proffesiynol gorau.

10 Rydym yn ymrwymedig i gydweithio’n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU trwy’r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, a chyda’n cydweithwyr yn y prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru, i wella effeithlonrwydd ac effaith gyfunol ein gwaith. Rydym hefyd yn falch i gynrychioli Cymru ar y llwyfan archwilio rhyngwladol, gan gynnwys mewn digwyddiadau EURORAI.

**Arddangosyn 1: ein gwaith craidd**




Ffynhonnell: Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru 2024-25

# Rhan 2: Cyflawni ansawdd archwilio

## Pam fod ansawdd archwilio'n bwysig?

11 Ansawdd archwilio yw'r sylfaen y mae ein gwaith i gyd yn cael ei adeiladu arni ac y mae ein henw da'n seiliedig arni. Mae archwilio o ansawdd da:

- yn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y gwaith a wnawn ac yn y cyrff yr ydym yn eu harchwilio;
- yn helpu i sicrhau bod cyrff a archwilir yn ymlynu wrth gyfreithiau a rheoliadau;
- yn gallu datgelu risgiau a gwendidau posibl yn y rheolaethau mewnol a'r trefniadau gwerth am arian sydd gan gorff, gan ei gwneud yn bosibl cymryd camau cywirol amserol;
- yn darparu hyder yn yr wybodaeth a ddefnyddir gan gyrff i wneud penderfyniadau; ac
- yn hybu tryloywder ac atebolrwydd.

## Sut ydym yn cyflawni ansawdd archwilio?

12 Mae disgwyliadau ynghylch ansawdd archwilio'n parhau i gynyddu. I sicrhau archwilio o ansawdd da mae angen timau ymrwymedig sy'n cymryd cyfrifoldeb personol am gyflawni ansawdd archwilio ac sy'n cael eu cefnogi yn y ffordd iawn. Mae ein ffocws di-baid ar dryloywder, atebolrwydd a gwella'n barhaus yn ailddatgan ein hymroddiad i feithrin ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaethau archwilio.


13 Mae safonau rheoli ansawdd rhyngwladol[1] yn rhoi pwyslais mawr ar integreiddio ansawdd archwilio yn ein diwylliant, ein strategaeth, ein gweithgareddau gweithredol a'n holl brosesau busnes (gweler **paragraff 86-94**).


14 Rhaid i ni greu amgylchedd sy'n galluogi ac yn cynorthwyo timau i gyflawni archwiliadau o ansawdd da. Felly, mae angen i ni fod yn rhagweithiol wrth ymateb i newidiadau yn natur ac amgylchiadau Archwilio Cymru a'n harchwiliadau.

15 Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn gwireddu ein hymrwymiad i ansawdd archwilio.

**Arddangosyn 2: ein model tair llinell sicrwydd**

[1] Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (DU) 1- rheoli ansawdd ar gyfer cwmnïau sy'n cyflawni archwiliadau neu adolygiadau o ddatganiadau ariannol, neu ymrwymiadau eraill sy'n ymwneud â sicrwydd neu wasanaethau cysylltiedig.


Llinell gyntaf o sicrwydd: Ein pobl
Dewis y tîm iawn
Defnydd o arbenigwyr
Goruchwylio ac adolygu
Ail linell o sicrwydd: Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio
Platfform Archwilio
Cyfarwyddyd
Dysgu a Datblygu
Cymorth technegol
Moeseg
Diwylliant
Arweinyddiaeth




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

16 Y **llinell sicrwydd gyntaf** yw ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyrraedd y safonau ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt. Mae angen iddynt fod â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i wneud hyn.

17 Yr **ail linell sicrwydd** yw'r polisïau, yr offer, y dysgu a datblygu, y canllawiau a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cynorthwyo i gyrraedd y safonau hynny o ran ansawdd archwilio.

18 Y **drydedd linell sicrwydd** yw'r gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf ac yn helpu i adnabod cyfleoedd i wella'n barhaus.

## Y llinell sicrwydd gyntaf: ein pobl

19 Mae bod â'r staff cywir sydd â digon o amser i wneud gwaith archwilio'n hanfodol i gyflawni ansawdd archwilio. Mae'r un mor hanfodol bod y staff hynny'n mabwysiadu dull ymholgar a sgeptigol ac yn derbyn cyfrifoldeb personol am ansawdd eu gwaith eu hunain.

20 Rydym yn gweithredu prosesau recriwtio wedi'u diffinio'n dda i sicrhau bod gan ein holl staff y cymhwysedd a'r galluoedd angenrheidiol i wneud eu gwaith. Ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon, rydym wedi sefydlu llwybrau mynediad proffesiynol gydag ymgeiswyr newydd yn ymuno naill ai fel prentisiaid AAT neu hyfforddeion ICAEW. Ar gyfer gwaith archwilio perfformiad, mae ein proses recriwtio'n cynnwys asesiad strwythuredig o sgiliau a phrofiad yr ymgeisydd.

21 Ym mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom gwblhau Cynllun Strategol newydd ar gyfer y Gweithlu sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Mehefin 2027. Yn erbyn ystod eang o heriau allanol a mewnol, mae'r Cynllun yn nodi

blaenoriaethau Archwilio Cymru o ran y gweithlu am y tair blynedd nesaf i gefnogi gwaith archwilio o ansawdd da. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

- rheoli talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth
- datblygu sgiliau
- ol-groniad o ran cyflawni – recriwtio, cadw, cynyddu capasiti
- dyluniad y sefydliad, rolau a darparu adnoddau

22 Ar gyfer yr holl waith archwilio cyfrifon, rydym yn neilltuo cyfrifoldeb i arweinydd ymrwymiad sy'n gyfrifol am gyfeiriad cyffredinol y gwaith hwnnw ac am sicrhau bod y tîm archwilio'n meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i wneud y gwaith. Mae'r arweinydd ymrwymiad hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau'r tîm archwilio'n cael yr oruchwyliaeth gywir a'r cymorth cywir i wneud eu gwaith. Mewn gwaith archwilio perfformiad, mae'r cyfrifoldebau hyn fel arfer yn cael eu cyflawni gan y sawl a neilltuwyd i rôl yr ail adolygydd, cyfarwyddwr neu reolwr.

23 Bydd adegau lle mae agweddau ar ein gwaith yn cynnwys meysydd arbenigol iawn. Yn yr achosion hyn, rydym yn ymgysylltu ag arbenigwyr allanol digon cymwys i roi cymorth ychwanegol ar gyfer ein gwaith. Mewn gwaith archwilio cyfrifon mae hyn yn cynnwys adolygu tybiaethau actiwaraidd ar gyfer pensiynau a phrisiadau eiddo.

> 'Mae'r amgylchedd y mae'r cyrff a archwilir gennym yn gweithredu ynddo'n dod yn fwyfwy cymhleth o ganlyniad i ofynion safonau proffesiynol; effaith yr argyfwng hinsawdd; trawsnewid digidol; a waethygir gan y rhagolygon heriol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Fel archwilwyr mae angen i ni allu ymateb i'r heriau hyn a sicrhau ein bod yn parhau i gael digon o dystiolaeth archwilio briodol, sy'n cynnwys cael cyngor arbenigol gan arbenigwyr megis actiwariaid a phriswyr.
>
> Rydym wedi bod ar daith i gomisiynu 'arbenigwyr archwilwyr' o'r fath – gan gydnabod yr angen i gydbwyso galwadau ar bwrs y wlad bob amser. Rydym yn falch o'r trefniadau yr ydym wedi'u rhoi ar waith a'n bod yn gallu ymateb i ddisgwyliadau rheoleiddwyr ac ysgogi gwerth go iawn o'r ymgysylltiadau hyn.'
>
> **Kate Havard**
> Rheolwr Archwilio

24 Mewn gwaith archwilio perfformiad, rydym yn ymgysylltu'n fynych ag arbenigwyr a sefydliadau ag arbenigedd perthnasol i oleuo ein gwaith, gan gynnwys ein meini prawf archwilio. Er enghraifft, fel rhan o'n gwaith ar arallgyfeirio incwm ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru fe wnaethom ymgysylltu â

swyddogion o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yn y Deyrnas Unedig i adnabod dulliau amgen. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio arfer da ar reoli rhaglenni a rheoli risg o ffynonellau gan gynnwys Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i ddatblygu ein meini prawf archwilio ar gyfer Tai Fforddiadwy.

Rydym yn cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gydlynu ein priod raglenni gwaith a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd. Er enghraifft, mae tîm y Comisiynydd wedi rhoi hyfforddiant a chyngor ac wedi goleuo datblygiad meini prawf archwilio. Rydym hefyd yn rhannu ein mewnwelediadau a'n canfyddiadau archwilio gyda'r Comisiynydd yn rheolaidd. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu wrth iddo ddatblygu ei strategaeth a'i raglen waith

## Yr ail linell sicrwydd: trefniadau ar gyfer cyflawni ansawdd archwilio

### Arweinyddiaeth a diwylliant

25 Mae Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio'n atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am ansawdd ein holl waith archwilio, gan gynnwys yr hyn a wneir gan staff Archwilio Cymru a chontractwyr allanol. Mae hi'n sicrhau bod ansawdd archwilio'n flaenllaw yn yr hyn a wnawn trwy:

- osod safonau personol ar gyfer ansawdd archwilio ac arwain drwy esiampl;
- ymgorffori ansawdd archwilio yn ein strategaethau, diwylliant, gwerthoedd, cod ymddygiad a methodolegau archwilio;
- hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd archwilio trwy ein system rheoli perfformiad;
- darparu negeseuon rheolaidd, agored a chlir i staff am bwysigrwydd ansawdd archwilio; a
- sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer ansawdd archwilio.

26 Cynorthwyir Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio gan gyfarwyddwyr archwilio a'r tîm arwain ehangach i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn a sicrhau ansawdd archwilio.

27 Yn ganolog i lwyddiant ein strategaeth mae ffocws parhaus ar sicrhau ansawdd ein gwaith archwilio. Mae ein diwylliant yn un sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac i gynorthwyo ein staff i gyflawni'r gwelliant hwnnw, trwy ddysgu a datblygu a'n trefniadau rheoli perfformiad. Rhaid i'n harweinyddiaeth greu'r amodau i staff ffynnu ac ymgysylltu.

> 'Mae cysylltu'r sefydliad cyfan â phwysigrwydd ansawdd archwilio wedi bod yn un o flaenoriaethau'r Tîm Gweithredol (TAG) yn ystod 2023-24. Fel a ddangosir trwy'r model tair llinell sicrwydd, mae pawb yn y sefydliad yn effeithio ar ansawdd archwilio: ein timau gwasanaethau archwilio, ein timau corfforaethol a'n timau cyfathrebu a newid.

Yn 2023-24 buom yn fwy pwrpasol mewn perthynas â hyn. Roedd adborth yn yr Arolwg Pobl blynyddol yn 2022 yn dynodi bod rhai yn y sefydliad yn teimlo nad oedd gwerth eu gwaith yn cael ei ddeall na'i werthfawrogi'n eang. Fe ymrwymodd y TAG i weithredu er mwyn mynd i'r afael â hyn. Fe wnaeth Sioeau Teithiol chwemisol gan y TAG dynnu sylw at y modd y mae pob elfen o'r busnes yn cyfrannu at gyflawni ein gwaith archwilio lefel uchel a dathlu hynny. Dyma hefyd oedd pwyslais digwyddiad staff cyfan ym mis Ebrill 2024, 'Paratoi ar gyfer ein dyfodol'. Y syniad y tu ôl i'r digwyddiad staff cyfan oedd:

- darparu digwyddiad fel bod pobl yn galli ailgysylltu, meithrin perthnasoedd newydd, a dod â phobl ar draws Archwilio Cymru ynghyd yn y cnawd am y tro cyntaf ers 2019 (cyn Covid).
- creu ymdeimlad o 'Un Archwilio Cymru' – canolbwyntio ar ein busnes craidd, gan amlygu pwysigrwydd a gwerth archwilio fel proffesiwn.

Mae'n hollbwysig ein bod ni'n parhau i godi pontydd ar draws y sefydliad i gael yr effaith fwyaf posibl. Gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd nag y byddem byth yn gallu ei gyflawni'n unigol.'

**Anne-Louise Clark**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid

28 Un o'r meysydd ffocws allweddol yn ein strategaeth yw cryfhau ein galluoedd arwain ar draws y sefydliad. Rydym wedi datblygu rhaglen Datblygu Rheolwyr Pobl bwrpasol sy'n amcanu at helpu rheolwyr i feithrin ymddiriedaeth o fewn eu timau. Mae'r rhaglen wedi'i bwriadu i helpu rheolwyr pobl i goetsio, cefnogi, annog, datblygu, gwrando, rheoli perfformiad, darparu adborth a chael sgyrsiau effeithiol. Mae hon yn elfen bwysig ar gyfer gwireddu'r uchelgeisiau ansawdd da a ddymunir gennym.

29 Rydym hefyd wedi cyfranogi mewn rhaglen Darpar Arweinwyr ar y cyd ag asiantaethau archwilio eraill y DU, sy'n ategu'r amcanion rheoli talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth yng Nghynllun Strategol y Gweithlu.

## Moeseg

30 Trwy God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn mabwysiadu ac yn cymhwyso'r Safon Foesegol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol i'n holl waith.

31 Un nodwedd allweddol ar archwilwyr yw'r gofyniad ein bod yn annibynnol ar y rhai yr ydym yn eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys nid dim ond wrth gyflawni gwaith archwilio ond annibyniaeth penodiadau hefyd. Mae'r annibyniaeth hon yn ein cynorthwyo i arfer sgeptigaeth broffesiynol ac yn ein galluogi i ddod i gasgliadau mewn modd gwrthrychol heb i ddylanwadau a allai beryglu ein crebwyll proffesiynol effeithio arnom.

32 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r swydd yn annibynnol ar lywodraeth ac mae

penodiadau’n cael eu gwneud gan y Brenin neu'r Frenhines sy'n teyrnasu ar enwebiad y Senedd. Caiff Archwilwyr Cyffredinol eu penodi am gyfnod penodedig o wyth mlynedd a dim ond gan y Brenin neu’r Frenhines y gallant gael eu diswyddo a hynny o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn. Mae cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn dâl a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n gwarchod annibyniaeth y swydd.

33 Mae ein Cod Ymarfer Archwilio a'n Cod Ymddygiad staff yn atgyfnerthu pwysigrwydd annibyniaeth a gwrthrychedd i'n gwaith. Mae'n ofynnol i'n holl staff wneud datganiad annibyniaeth blynyddol lle maent yn nodi unrhyw gysylltiadau â'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio a allai amharu ar eu hannibyniaeth. Pan nodir unrhyw rwystrau o'r fath, cymerir camau priodol i liniaru gwrthdaro buddiannau posibl i lefel dderbyniol. Gall camau o'r fath gynnwys atal staff rhag gweithio ar archwiliadau penodol neu gyfyngu ar gwmpas ymwneud posibl unigolyn ag archwiliad penodol.

34 Mae Cod Ymddygiad ar wahân yn bodoli ar gyfer aelodau'r Bwrdd y mae'n ofynnol iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a all fod ganddynt yn unrhyw fater ac y gall fod yn ofynnol iddynt adael cyfarfodydd lle mae'r mater hwnnw'n cael ei ystyried.

35 Yn ogystal â gwaith lle caiff yr Archwilydd Cyffredinol ei benodi drwy statud megis archwilio cyfrifon ac archwiliadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, caiff wneud rhywfaint o waith drwy gytundeb o bryd i'w gilydd. Mae gennym bolisïau a gweithdrefnau sefydledig i sicrhau bod gwaith anstatudol yn cael ei wneud dim ond pan fydd gennym y capasiti a'r gallu i wneud y gwaith hwnnw a lle na fyddai derbyn penodiad o'r fath yn amharu ar annibyniaeth statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

36 Lle’r ydym yn hanesyddol wedi prynu gwasanaeth cwmnïau preifat i wneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, bu'n ofynnol iddynt fod â threfniadau tebyg ar waith i fonitro a rheoli unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth yr archwiliadau y maent yn eu gwneud. Mae gennym weithdrefnau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

37 Mae gennym Bolisi Cylchdroi sy’n cael ei adolygu ar hyn o bryd ac sy'n rheoli pa mor hir y gall uwch aelodau o staff fod yn rhan o gyfarwyddo unrhyw archwiliad penodol. Mae'r polisi’n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng natur gwaith yr Archwilydd Cyffredinol sy’n annewisol gan mwyaf, maint cymharol fach Archwilio Cymru a gofynion y Safon Foesegol.

38 Mae staff yn cael hyfforddiant i atgyfnerthu ymwybyddiaeth o'n polisïau a'n gweithdrefnau annibyniaeth.

> ‘Yn dilyn bwlch a achoswyd gan Covid, yn 2023-24 fe gyflwynom ni hyfforddiant moeseg wyneb-yn-wyneb i holl staff ac aelodau bwrdd Archwilio Cymru. Roedd y sesiynau hyn o ddwy awr a mwy’n cynnwys rhoi sylw i Safon Foesegol 2019, codau moesegol y sefydliadau cyfrifyddu a Chodau Ymddygiad Archwilio Cymru. Fe wnaethom deilwra’r sesiynau tuag at anghenion grwpiau gwaith penodol, megis archwilwyr perfformiad, ac fe’i gwnaethom yn ofynnol i staff ateb cwestiynau trwy gydol y sesiynau. Ar y

diwedd fe wnaethom bennu astudiaethau achos ymarferol byr i brofi cyfraddau ymgysylltu a chadw. Fe roddom bwyslais penodol ar ba mor bwysig ydyw bod uwch reolwyr yn darparu diwylliant priodol ar gyfer arfer moesegol cadarn, gan gynnwys sylw i bryderon moesegol yn ein trefniadau chwythu'r chwiban mewnol. Ac o ystyried agweddau ychwanegol penodol uniondeb, gwrthrychedd ac annibyniaeth mewn gwasanaeth cyhoeddus, fe wnaethom gynnwys sylw i egwyddorion Nolan a phethau fel peryglon gweithgarwch gwleidyddol personol ar y cyfryngau cymdeithasol.'

**Martin Peters**
Pennaeth y Gyfraith a Moeseg

## Canllawiau ac offer archwilio

39 Un o'r elfennau pwysig o gyflawni ansawdd archwilio yw sefydlu dulliau safonedig o gyflawni ein gwaith.

40 Rydym yn gwneud ein gwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio ein Llawlyfr Cyflawni Gwaith Archwilio Perfformiad (PADM). Yn 2023, fe wnaethom ddiweddaru PADM i adlewyrchu'r safonau archwilio perfformiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Mae'r rhain yn cynrychioli'r safonau perfformiad rhesymol a chyraeddadwy a ddefnyddir gennym i asesu darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau corff a archwilir. Yn 2024, fe wnaethom werthuso'r modd yr ydym yn cymhwyso'r PADM newydd gan gynnwys arolwg o ddefnyddwyr. Roedd cydweithwyr yn croesawu'r pwyslais ychwanegol ar gynllunio gwaith archwilio, a'r hyfforddiant a chymorth a roddwyd. Canfu'r gwerthusiad ddiffyg eglurder mewn perthynas â rhai prosesau adolygu, sydd bellach wedi cael eu symleiddio ac a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn ein llif gwaith newydd.

41

> ‘Mae’r PADM newydd yn gwneud i ni oedi a meddwl am yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham. Mae hyn yn cynnwys bod yn glir ynghylch sail ddeddfwriaethol ein gwaith a pha un a fydd a sut y bydd archwiliad yn cyflawni cyfrifoldebau’r Archwilydd Cyffredinol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Hefyd, perthnasedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy.
>
> O ganlyniad i’r PADM newydd mae timau archwilio’n cysylltu â mi i gael cymorth a chyngor ac mae hyn yn ein helpu i gyrraedd ein nod i integreiddio’r archwiliadau ochr yn ochr â’n gwaith ehangach. Yn hollbwysig, trwy gael rhagor o’r sgyrsiau hyn rydym yn cryfhau ein ffordd o feddwl ac yn creu’r cysylltiadau rhwng yr egwyddor datblygu cynaliadwy a gwerth am arian. Dangosir hyn yn y gwaith a gyhoeddir gennym – mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys yr Adolygiad o Strategaethau Digidol ar draws llywodraeth leol, a’r astudiaethau cenedlaethol o Dai Fforddiadwy a Theithio Llesol.’
>
> **Catryn Holzinger**
> Rheolwr Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

42 Mae effaith ein gwaith archwilio’n dal i fod yn rhan allweddol o ansawdd archwilio – dylanwedir yn rhannol ar hyn gan y prosiectau yr ydym yn eu dewis, yr argymhellion yr ydym yn eu gwneud a sut yr ydym yn gwerthuso’r broses o gyflawni prosiectau. Rydym wedi:

- Sefydlu rhaglen strategol o waith archwilio, sy’n tynnu ar ymgysylltiad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Cynnal gweithdy ar ‘greu effaith’ yn y gynhadledd staff a gyflwynwyd gan y tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio a’r tîm Cyfathrebu.
- Darparu hyfforddiant a chanllawiau ar ddrafftio a thracio argymhellion archwilio, gan gynnwys argymhellion CAMPUS sy’n gysylltiedig â’r effaith fwriadedig. Rydym hefyd wedi safoni defnydd timau archwilio o’r Ffurflen Ymateb Rheolwyr (MRF) i gael ymateb gan gyrff a archwilir i unrhyw argymhellion archwilio perfformiad.
- Treialu offeryn newydd ar gyfer dysgu o brosiectau, sydd wedi adnabod yr angen am brosesau gwerthuso mwy effeithlon ac i fyfyrio trwy gydol oes archwiliad neu brosiect. Gweler Dysgu a Datblygu am ragor o fanylion.
- Treialu arolwg ansawdd ar ôl archwiliad i gasglu barn cyrff a archwilir am ansawdd prosiectau archwilio perfformiad unigol. Roedd ymatebwyr a gafwyd gan randdeiliaid yn ddefnyddiol ac yn ategu ein gwerthusiad ni ein hunain o archwiliadau lleol. Bydd y cynllun peilot yn cael ei ehangu i ragor o archwiliadau dros y flwyddyn sydd i ddod.
- Ymgysylltu â darparwr allanol i ailfeddwl am ein dull o ysgrifennu adroddiadau. Y nod yw cynyddu eglurder ynghylch diben adroddiadau, ein cynulleidfaoedd

a’n heffaith fwriadedig; a gwneud ein proses ysgrifennu’n fwy effeithlon. Mae Cam 1 wedi’i gwblhau. Fel rhan o hyn fe wnaeth ein darparwr allanol adolygu ein hallbynnau a’n templedi, gan gwrdd â staff ac adrodd wrth grŵp uwch randdeiliaid ar eu canfyddiadau. Mae Cam 2 – datblygu canllawiau, arddull a thempledi newydd ar y gweill, gyda bwriad i gynnal Cam 3 – hyfforddi a chyflwyno yn gynnar yn 2025.

‘Yng Nghynhadledd Staff 2024 fe gynhaliom ni weithdy i ystyried ‘beth mae effaith yn ei olygu i ni yn Archwilio Cymru a pham fod hynny’n bwysig?’. Cafwyd trafodaeth am y diffiniad o effaith a’r elfennau ar gyfer creu effaith gadarnhaol. Canfu’r rhai a oedd yn bresennol fod ein gwaith yn cael effaith pan fo’n gwneud gwahaniaeth, pan fo’n berthnasol a phan ellir uniaethu ag ef (pwysigrwydd) a phan fo’n weladwy. Roedd llawer o enghreifftiau lle’r ydym wedi cael effaith yn genedlaethol ac yn lleol. Gallwn gael mwy o effaith os ydym yn fwy amserol, yn cyrraedd cynulleidfa ehangach, yn fwy eofn ac yn fwy dewr. Po fwyaf fo’r effaith, po fwyaf hyderus allwn fod bod ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Fe wnaeth y gweithdai grafu’r wyneb, ond mae mwy y gallwn ni ei wneud – mae sut yr ydym yn mesur effaith yn faes i fwrw golwg fanylach arno.’

**Gareth Phillips**
Pennaeth Cyfathrebu

43 Hon oedd yr ail flwyddyn i ni roi dull archwilio cyfrifon newydd ar waith mewn ymateb i’r Safon Ryngwladol ddiwygiedig ar Archwilio 315 (DU)[2]. Roedd hyn yn newid sylfaenol i'n dull gyda'r safon ddiwygiedig yn amcanu at ysgogi asesiad risg mwy cyson, gwell ansawdd ac effeithlonrwydd archwilio, a mwy o bwyslais ar sgeptigaeth broffesiynol. Mae ein dull bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar risg archwilio gan sicrhau bod timau'n cwblhau profion wedi'u targedu.

44 Yn gynnar yn 2024, cafodd timau hyfforddiant diweddaru ar egwyddorion allweddol y dull i roi cymorth pellach i’w roi ar waith. Roedd hyn yn cynnwys myfyrio ynghylch y gwersi o 2022-23 yn seiliedig ar adborth staff ac adolygiad mewnol o ffeiliau archwilio. Rhyddhawyd offer ychwanegol ar gyfer timau eleni hefyd, megis templedi profi pellach i fynd i’r afael â haeriadau ar gyfer meysydd penodol mewn cyfrifon.

45 Trwy ein methodolegau rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ansawdd archwilio a rôl yr holl aelodau o staff i gyflawni’r lefelau disgwyliedig o ansawdd archwilio. Mae’r methodolegau hyn wedi’u bwriadu i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer cymhwyso barnau a gweithdrefnau cyson i’n holl waith archwilio ac fe’u hategir gan

[2] ISA (DU) 315 (diwygiwyd Gorffennaf 2020) Adnabod ac Asesu Risgiau o Gamddatganiad Perthnasol

ddogfennaeth a systemau rheoli cofnodion (gweler **platfformau archwilio**), sydd eto'n hybu cysondeb ac ansawdd archwilio.

> 'Fe wnaeth rhoi'r dull archwilio newydd ar waith arwain at ailwampio'r fethodoleg yr oeddem yn ei chymhwyso i'n harchwiliad o wariant grantiau yn fy mhrif archwiliad.
>
> Fe wnaethom ddadansoddi gwariant grantiau yn ôl y math o gynllun, a wnaeth ein galluogi i ganolbwyntio ar y risgiau penodol ym mhob cynllun, ac yna dewis yr haeriadau a oedd fwyaf perthnasol i'r risg honno yn ein tyb ni.
>
> Fe dalodd y dull yma ar ei ganfed – canfuom wallau cyfrifyddu, ac fe amlygom ni i'r cleient ble y gellid cryfhau prosesau'r grantiau. Wrth symud i mewn i 2023-24, rydym yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gennym yn 2022-23 ac yn myfyrio ynghylch ein methodoleg i brofi'r grantiau hyn. Mae ein dull newydd wedi ein galluogi i fod yn ddewr a chanolbwyntio ar yr haeriadau archwilio lle'r ydym yn barnu bod gwallau'n fwyaf tebygol o ddigwydd.
>
> Mae'r dull newydd wedi ein grymuso i asesu risgiau mewn gwahanol feysydd o fewn gwariant grantiau, gan arwain at archwiliad â ffocws mwy penodol, a chynyddu effeithiolrwydd o ran amser profi.'
>
> **Matthew Bowen**
> Uwch Archwilydd

46 Rydym yn parhau i ddatblygu a gwreiddio ystod o offer dadansoddeg data ac offer cyfrifiadurol eraill yn ein gwaith archwilio ariannol i'n galluogi i fynd ati'n effeithiol i holi ac asesu risgiau mewn symiau mawr o ddata trafodiadol i wella ansawdd archwilio.

47 Ym maes archwilio perfformiad mae nifer o offer wedi cael eu lansio neu eu diweddaru ar gyfer defnydd gan archwilwyr gan gynnwys yr Offeryn Risgiau Iechyd (HEART) sy'n darparu dadansoddiadau o setiau data allweddol i oleuo asesiadau risg o fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd; ac offeryn data Cyd-destun a Pherfformiad Llywodraeth Leol (LG CaP) wedi'i ailddatblygu. Mae'r LG CaP yn cynnwys y data diweddaraf ar berfformiadau gwasanaethau allweddol, ochr yn ochr â gwybodaeth gyd-destunol a data ariannol. Mae nifer o ddefnyddiau i hyn, gan gynnwys cefnogi ein gwaith cynaliadwyedd ariannol. Byddwn yn darparu hyfforddiant penodol ar ddefnyddio a chyflwyno data yn ystod hydref 2024.

48 Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn datblygu'n gyflym ar draws y proffesiwn archwilio. I aros gyfuwch â datblygiadau ehangach rydym yn archwilio'r defnydd o AI yn ein gwaith archwilio os gall ddangos gwelliannau mewn ansawdd a/neu effeithlonrwydd archwilio, yn amodol ar gynnal y mesurau diogelu perthnasol. Mae cyflwyno AI yn ein gwaith archwilio'n flaenoriaeth yng Nghynllun Busnes y Gwasanaethau Archwilio. Rydym yn arbrofi gyda nifer fach o brosiectau, gan gynnwys defnyddio AI ar gyfer crynhoi dogfennau a chwmpasu astudiaeth.

## Cymorth technegol

49 Cefnogir ein holl archwilwyr gan ein tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio (AD&G) pwrpasol, sy'n rhoi canllawiau a chyngor arbenigol ynghylch ystod o faterion technegol a phroffesiynol ac, ar y cyd â'n tîm Adnoddau Dynol, yn cefnogi gweithgarwch dysgu a datblygu ein timau archwilio.

50 Fe wnaethom gryfhau ein cymorth technegol trwy sefydlu swyddogaeth ymchwil a datblygu ar wahân yn 2022. Mae'r tîm yn parhau i ddatblygu ein dull o sganio'r gorwel sy'n cynnwys gwneud ymchwil gynnar i roi cymorth i ddatblygu ein rhaglen o waith archwilio. Mae'r gwaith hwn yn ein helpu i ganolbwyntio ein gwaith archwilio i gael effaith fwy a rhannu arfer da, er enghraifft ein gwaith diweddar ar bwyllgorau archwilio effeithiol.

51 Rydym yn ymegnïo i gynnal a meithrin perthnasoedd gweithio a rhwydweithiau clòs gyda nifer o randdeiliaid mewnol ac allanol gan gynnwys sefydliadau proffesiynol ac asiantaethau archwilio eraill y mae eu gwaith yn ymwneud â'r sector cyhoeddus. Rydym yn amcanu at gynyddu i'r eithaf gyfleoedd i rannu gwersi a gwybodaeth i wella'n barhaus a sicrhau ein bod yn dylanwadu ar brosesau penderfynu ehangach a allai effeithio ar archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi gweithio gydag asiantaethau archwilio cyhoeddus eraill i ddatblygu ein methodolegau, gan fynd ati ar y cyd i rannu canllawiau a gwersi o'n profiadau o wreiddio safonau proffesiynol newydd a diwygiedig.

52 Rydym hefyd wedi cynnal adolygiad sylfaenol o'r adnoddau proffesiynol yr ydym yn trefnu iddynt fod ar gael i'n staff, e.e. tanysgrifiadau proffesiynol – gan ailbennu ffocws rhai ac ehangu cwmpas eraill i roi mwy o gymorth i dimau archwilio.

## Platfformau archwilio

53 Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio systemau pwrpasol sy'n seiliedig ar Microsoft 365 ar gyfer ein holl waith archwilio cyfrifon, grantiau, a pherfformiad. Mae ein platfformau o gymorth i sicrhau cysondeb dulliau archwilio ac yn darparu gwiriadau ansawdd cynwysedig. Mae'n rhoi inni'r gallu i fabwysiadu arferion gorau a datblygiadau proffesiynol newydd yn ein methodolegau archwilio yn awr ac yn y dyfodol.

54 Rydym wedi datblygu llif gwaith archwilio perfformiad, a fydd yn adlewyrchu ein PADM newydd. Trwy gyflwyno'r dechnoleg hon, rydym yn amcanu at gynnal a gwella ansawdd archwilio, gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd a rhoi cymorth i fonitro cynnydd. Yn 2024 fe wnaethom dreialu'r prototeip yn llwyddiannus a byddwn yn cyflwyno'r llif gwaith yn 2025.

55 Mae gennym hefyd blatfform electronig i reoli'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar fwy na 700 o archwiliadau o gynghorau tref a chymuned.

## Dysgu a datblygu

56 Rydym yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn dysgu a datblygu i wella gwybodaeth a sgiliau proffesiynol ein staff. Er enghraifft, rydym wedi ymrwymo i gontract newydd gyda chyflenwr allanol i gefnogi a gwella ein harlwy hyfforddiant mewnol ar

gyfer gwaith archwilio cyfrifon. O dan y contract hwn rydym eisoes wedi comisiynu hyfforddiant manwl ar archwilio a chyfrifyddu grwpiau; adrodd ar gynaliadwyedd; archwilio contractau yswiriant; hyfforddiant atodol ISA 315; a newidiadau cyffredinol i safonau adrodd ariannol.

57 Darperir lwfans dangosol o ddeg diwrnod y flwyddyn ar gyfer staff i gefnogi eu gweithgarwch dysgu a datblygu proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddi wedi'i theilwra ar gyfer ein hyfforddeion a phrentisiaid sydd wedi'i bwriadu i helaethu eu datblygiad tra'u bod yn gweithio tuag at ennill eu cymwysterau proffesiynol.

58 Mae dwy elfen i'n rhaglenni dysgu a datblygu blynyddol:

- elfennau gorfodol – mae'r rhain wedi'u bwriadu i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant mewn meysydd sgiliau craidd a thechnegol newydd ac allweddol sy'n berthnasol i'w rolau; ac
- elfennau 'ar alw' – caiff y rhain eu hadnabod o adolygiadau datblygu perfformiad aelodau o staff gyda'u rheolwyr llinell a'u bwriad yw cefnogi datblygiad personol unigolyn.

59 Rydym yn ymrwymedig i ddysgu parhaus ac rydym yn defnyddio'r canlyniadau a'r sylwadau o'n harolwg pobl i lywio ein dull lle mae dysgu a datblygu yn y cwestiwn.

60 Rhennir canlyniadau ein prosesau monitro ansawdd (gweler **y Drydedd linell sicrwydd**) gyda staff ac mae ymatebion i unrhyw faterion a adnabuwyd yn cael eu cynnwys fel rhan o'n rhaglenni dysgu a datblygu yn ôl yr angen.

61 Mae rhan fawr o'n rhaglenni dysgu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio ar wreiddio ein safonau archwilio INTOSAI newydd. Ar gyfer archwilio perfformiad, mae hyn wedi cynnwys:

- parhau i gyflawni adrannau perthnasol o'n cynllun dysgu a datblygu; ac
- ailadrodd hyfforddiant gorfodol cynharach ar gyfer cydweithwyr sy'n newydd neu sy'n dychwelyd.

62 Mae ein prosesau datblygiad personol wedi cael eu hachredu fel system datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) briodol ar gyfer ein staff gan Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT).

63 Rydym yn asesu effeithiolrwydd ein buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, rydym yn disgwyl i reolwyr llinell drafod effeithiolrwydd unrhyw weithgareddau dysgu a datblygu a sut y cymhwyswyd hynny'n ymarferol.

64 Mae gennym hefyd broses dysgu-ar-ôl-prosiectau ar gyfer prosiectau mawr (gan gynnwys archwiliadau) sy'n ceisio atgyfnerthu ein nod i fod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn rhannu ac sy'n ymdrechu i wella'n barhaus. Mae'r broses dysgu-ar-ôl-prosiectau hon yn canolbwyntio ar ystyried beth allwn ni ei ddysgu o'r ffordd y cyflawnwyd y prosiect ac mae'n hybu'r arfer o ystyried:

- beth weithiodd yn dda;
- beth allai fod wedi cael ei wella;
- sut oedd yn teimlo;
- tystiolaeth o effaith; a

- gwersi ar gyfer y dyfodol.

65 Mae gennym offeryn mewnol ar gyfer dysgu o brosiectau i gofnodi gwersi dros oes prosiect, sydd yng ngham olaf ei ddatblygiad. Bydd yn ei gwneud yn bosibl dysgu gwersi mwy cywir o brosiectau cyfredol ac ymateb yn fwy amserol i faterion a adnabuwyd. Mae'r offeryn dysgu o brosiectau wedi cael ei dreialu gyda thimau ar draws Archwilio Cymru ac mae eu hadborth yn cael ei ddefnyddio i oleuo'r cynnyrch terfynol. Bydd timau prosiect yn defnyddio'r offeryn i adnabod cryfderau, meysydd i'w gwella a rhannu gwersi. Bydd yr offeryn yn ei gwneud yn bosibl i bwyntiau gweithredu ar gyfer dysgu gael eu cofnodi'n ganolog, eu tracio a'u dadansoddi ar gyfer themâu. Bydd hyn yn ein helpu i adnabod anghenion dysgu a datblygu'n fwy effeithiol.

## Y drydedd linell sicrwydd: sicrwydd annibynnol

### Monitro Allanol

66 Ar hyn o bryd rydym yn ein trydydd contract ar gyfer monitro ansawdd yn allanol gydag Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). QAD yw'r rheoleiddiwr mwyaf ar gyfer cwmnïau archwilio yn y DU a'r rheoleiddiwr archwilio llywodraeth leol yn Lloegr.

67 Mae hwn yn faes y buddsoddwyd yn sylweddol ac yn barhaus ynddo trwy estyn nifer yr archwiliadau o gyfrifon a adolygir a chyflwyno adolygiad QAD o'n gwaith archwilio perfformiad.

68 Rydym yn crynhoi yn yr adran nesaf – Adolygiadau Oer – y gwaith a wnaed ar ein cyfer gan QAD yn y flwyddyn ddiwethaf.

### Adborth rhanddeiliaid

69 Ym mis Mawrth 2024, fe gynhaliom ni arolwg rhanddeiliaid byr gyda chyrff a archwilir. Roedd hwn wedi'i fwriadu i ategu'r arolygon annibynnol a gynhaliwyd gennym yn 2023 ar gyfer y cyhoedd ac ystod o randdeiliaid eraill. Mae'r negeseuon ar y cyfan yn debyg – mae ein rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi ein hannibyniaeth, ansawdd y gwaith yr ydym yn ei wneud a'n perthnasoedd gweithio.[3]

### Adolygiadau oer

70 Mae adolygiadau oer yn adolygiadau o archwiliadau cyfan i asesu'r modd y cydymffurfiwyd â safonau ansawdd rhagnodedig. Cânt eu cynnal ar ôl i'r archwiliad gael ei orffen. Caiff yr adolygiadau hyn eu hasesu yn erbyn system sgorio pedwar pwynt fel a ddisgrifir yn **Rhan 3** o'r adroddiad hwn.

[3] Fe anfonom ni arolwg 2024 at yr holl brif gyrff yr ydym yn eu harchwilio ac fe gawsom gyfradd ymateb o 35% ar y cyfan. Mae hon yn gyfradd ymateb debyg i arolygon blaenorol. Wrth dynnu negeseuon allan o'r adborth rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod y gyfradd ymateb yn gymharol isel.

71 Rydym yn defnyddio dull cylchdroi ar gyfer cynnal adolygiadau oer, gan sicrhau bod yr holl reolwyr archwilio'n cael eu hadolygu o leiaf bob tair i bedair blynedd. Yn yr un modd, bydd pob cyfarwyddwr ymgysylltu'n cael ei adolygu'n flynyddol fel rheol.

72 Rydym yn amcanu at sicrhau bod cwmpas yr holl adolygiadau'n cynrychioli'r sectorau archwilio, y cyrff a archwilir a chymhlethdod.

73 Fe ganolbwyntiodd rhaglen QAD ar archwiliadau o gyfrifon mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022-23 ac adroddiadau archwilio perfformiad a gyhoeddwyd/a gwblhawyd yn 2023 ac yn gynnar yn 2024.

74 Rydym yn amlinellu'r canfyddiadau ar y cyfan gan QAD yn **Rhan 3**.

75 Rydym yn cyfranogi mewn rhwydwaith o asiantaethau archwilio o bob rhan o'r DU ac Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys rhaglen flynyddol o adolygiadau gan gymheiriaid o rai adroddiadau archwilio perfformiad. Rydym yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r adolygiadau hyn fel rhan o'n gwaith ar ddiweddaru ein templedi ar gyfer adroddiadau a'n dull ysgrifennu.

## Adolygiadau thema

76 Adolygiadau heb sgôr o waith archwilio sy'n bwrw golwg ar faterion penodol ar draws nifer o archwiliadau yw adolygiadau thema. Mae ein holl adolygiadau thema wedi cael eu cynnal yn fewnol. Gallai'r rhain ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae safon archwilio newydd wedi cael ei chymhwyso'n ymarferol; mater sy'n dod i'r amlwg a adnabuwyd ar draws y proffesiwn; neu feysydd sydd o ddiddordeb neu'n peri pryder yn Archwilio Cymru. Fe'u bwriedir fel ymarferion dysgu i nodi a oes angen rhagor o hyfforddiant, arweiniad neu gymorth arall.

77 Mae adolygiadau thema diweddar wedi cynnwys gwerthuso sampl o ffeiliau archwilio cyfrifon i ddeall sut yr oedd y dull diwygiedig ar gyfer 2022-23 (gweler **paragraff 42**) yn cael ei roi ar waith. Fe wnaeth hyn oleuo'r hyfforddiant diweddaru ar y dull archwilio a ddarparwyd yn gynnar yn 2024. Adnabu'r adolygiad rai pwyntiau a oedd yn gyson â'r adolygiadau oer a gyflawnwyd gan QAD (gweler **paragraff 105**).

78 Yn 2023 fe gynhaliom ni adolygiad thema o lywodraethu gwybodaeth a data a oedd yn gysylltiedig ag archwilio perfformiad. Roedd hwn yn gyfle i ddeall arfer cyfredol ac adnabod gwersi allweddol. Yn 2024 fe gyhoeddom ni ganllawiau wedi'u diweddaru ar ffolderi cyfyngedig a phecyn hyfforddiant ar-lein i helpu archwilwyr i gydymffurfio â chyfraith diogelu data.

## Dadansoddi Achosion Sylfaenol

79 Mae Dadansoddi Achosion Sylfaenol (RCA) yn derm cyfunol sy'n disgrifio ystod eang o ddulliau, offer a thechnegau a ddefnyddir i adnabod prif achosion deilliannau. Rhan o'r broses Dadansoddi Achosion Sylfaenol yw adnabod camau priodol i atal deilliannau negyddol rhag digwydd eto, a gwneud i ddeilliannau cadarnhaol ddigwydd eto. Mae gweithgareddau Dadansoddi Achosion Sylfaenol wedi'u bwriadu i ddatgelu cyfleoedd i barhau i wella a rhoi anogaeth i ddysgu a datblygu.

80 Ein nod yw gwneud gweithgareddau Dadansoddi Achosion Sylfaenol ar gyfer monitro ansawdd yn rhan o brosesau arferol. Bydd gweithgareddau Dadansoddi Achosion Sylfaenol yn digwydd lle'r ydym wedi adnabod materion neu ddeilliannau cadarnhaol y byddai o fudd eu harchwilio ymhellach. Er mwyn helpu i bennu ein dull a'n polisi ar gyfer Dadansoddi Achosion Sylfaenol, rydym wedi:

- cynnal gwerthusiad o'n dull o Ddadansoddi Achosion Sylfaenol a phum peilot Dadansoddi Achosion Sylfaenol.
- sefydlu a datblygu Grŵp Hwyluswyr Dadansoddi Achosion Sylfaenol – grŵp o staff a ddetholwyd ar draws y sefydliad sy'n meddu ar sgiliau allweddol i Ddadansoddi Achosion Sylfaenol. Mae'r grŵp hwn wedi dechrau llwybr dysgu estynedig ar Ddadansoddi Achosion Sylfaenol ac wedi dechrau cyflawni gweithgareddau Dadansoddi Achosion Sylfaenol.
- datblygu canllawiau a phrosesau i roi cymorth i Ddadansoddi Achosion Sylfaenol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys log Dadansoddi Achosion Sylfaenol i dracio'r gweithgareddau a gyflawnir ac offer proses/templedi Dadansoddi Achosion Sylfaenol i gefnogi ansawdd gweithgareddau.

'Polisi Archwilio Cymru yw cynnal gweithgaredd Dadansoddi Achosion Sylfaenol pan fo adolygiad allanol o ansawdd yn rhoi sgôr o 3 neu 4 i ymrwymiad archwilio. Yn 2023 rhoddodd QAD sgôr o 3 (angen gwelliannau) i un archwiliad lleol. Fe gwblhaom ni weithgaredd Dadansoddi Achosion Sylfaenol ym mis Ionawr 2024.

Fe wnaeth y gweithgaredd Dadansoddi Achosion Sylfaenol alluogi'r tîm archwilio (gyda chymorth hwylusydd Dadansoddi Achosion Sylfaenol) i fyfyrio ynghylch achosion sylfaenol materion a adnabuwyd gan adolygiad QAD. Fe helpodd hyn y tîm archwilio a'r tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio i ystyried pa faterion oedd yn benodol i'r archwiliad a pha rai fyddai'n berthnasol i archwiliadau tebyg er mwyn datblygu camau gweithredu priodol.

Roedd achosion sylfaenol a adnabuwyd yn cynnwys y tensiwn rhwng archwiliadau a bennwyd yn ganolog ac archwiliadau wedi'u teilwra'n lleol, eglurder ynghylch cwmpas yr archwiliad, yr angen i gryfhau canllawiau/hyfforddiant ar ddogfennaeth ac ysgrifennu adroddiadau. Mae llawer o'r camau gweithredu a adnabuwyd yn ystod y gweithgaredd Dadansoddi Achosion Sylfaenol eisoes wedi dechrau.

Cynhaliwyd y broses mewn ffordd gefnogol, gyda ffocws ar wella'n barhaus.'

**Gary Emery**
Cyfarwyddwr Archwilio

## Adolygiadau o Ansawdd Ymrwymiadau (EQRs)

81 Adolygiadau o ffeiliau archwilio cyfrifon, neu rannau o ffeiliau archwilio, a gynhelir cyn cwblhau'r archwiliad yw Adolygiadau o Ansawdd Ymrwymiadau. Fe'u cyflawnir

gan gyfarwyddwyr sy’n gymheiriaid a gallant fod yn ofynnol mewn nifer o amgylchiadau, megis lle mae arweinydd ymrwymiad newydd yn ei le; lle cynigir adroddiad archwilio amodol; lle mae'r arweinydd ymrwymiad yn gofyn am adolygiad gan gymheiriaid o fater technegol neu gymhleth; neu, lle’r oedd mater a oedd yn ymwneud ag ansawdd mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r adolygiadau hyn yn cael eu sgorio. Yn hytrach, fe'u cynhelir i ganolbwyntio ar feysydd risg ac i’w gwneud yn bosibl datrys unrhyw faterion sy'n peri pryder cyn i'r farn archwilio gael ei rhoi.

## Pwyllgor Ansawdd Archwilio

82 Sefydlwyd y Pwyllgor Ansawdd Archwilio yn 2020 i gryfhau ein fframwaith ansawdd archwilio gyda golwg ar gynyddu tryloywder y trefniadau hynny a gwella hyder ynddynt. Mae’r Pwyllgor – sy’n cwrdd yn chwarterol yn unol â’i raglen waith – yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol Archwilio Cymru;
- Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio yn Archwilio Cymru;
- cyfarwyddwyr technegol archwilio ariannol ac archwilio perfformiad Archwilio Cymru;
- y rheolwyr ac arweinwyr ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru; a hefyd
- tri aelod proffesiynol annibynnol, y mae un ohonynt yn gweithredu fel y Cadeirydd.

83 Amcanion penodol y Pwyllgor yw ein cynorthwyo i sicrhau:

- bod y trefniadau sydd gan Archwilio Cymru i reoli a monitro ansawdd archwilio’n effeithiol ac yn gyson â safonau ansawdd rhyngwladol;
- bod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o safon ansawdd briodol ac yn ateb y gofynion a nodir yng nghanllawiau Archwilio Cymru ac mewn safonau proffesiynol (lle y bo’n berthnasol); a
- bod ansawdd archwilio’n parhau i wella yn unol ag arfer proffesiynol gorau.

84 Mae’r Pwyllgor yn gyfrifol yn benodol am ddarparu sicrwydd ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol bod adnoddau priodol yn eu lle i roi cymorth i reoli, monitro a gwella ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru. Cyflawnir hyn trwy Adroddiad Annibynnol Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol, sy’n rhan o’r Adroddiad Ansawdd hwn.

> ‘Fe sefydlodd Archwilio Cymru ei Bwyllgor Ansawdd Archwilio yn 2020 i gynghori a chefnogi ei Gyfarwyddwyr Gweithredol ar faterion sy’n ymwneud ag ansawdd. Roedd hon yn ffordd newydd o wella strwythurau llywodraethu i ddarparu her adeiladol i drefniadau a chanlyniadau ansawdd. Rwyf wedi mwynhau bod yn aelod annibynnol o’r Pwyllgor ers 2021 ac yn ddiweddar fe ymgymerais â rôl Cadeirydd y Pwyllgor pan benderfynwyd penodi dau aelod annibynnol ychwanegol. Rwy’n credu bod y penodiadau hyn wedi gwella effeithiolrwydd y Pwyllgor ymhellach.

Mae'r trefniadau ansawdd cyfredol yn Archwilio Cymru'n adlewyrchu'r pwyslais cryf y mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i Dîm Arwain Gweithredol yn ei roi ar ansawdd y gwaith a gynhyrchir. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, crëwyd argraff enfawr arnaf gab lefel yr ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangosir gan y staff i gyflawni gwaith archwilio o ansawdd da. Mae'r safon uchel y mae Archwilio Cymru'n ei mynnu ganddo'i hun yr un mor berthnasol i archwilio ariannol ac archwilio perfformiad a dangosir hyn gan y canlyniadau yr adroddwyd arnynt wrth y Pwyllgor ac a gofnodir yn yr adroddiad hwn.

Mae cyflymder parhaus y newid ym myd archwilio'n ddigynsail gyda heriau sylweddol megis darparu adnoddau; adrodd ar archwilio cynaliadwyedd; digideiddio a mwy o ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial. Nid yw'n syndod o gwbl, felly, bod safonau archwilio'n canolbwyntio'n gryf ar ansawdd tystiolaeth archwilio. Eto, crëwyd argraff arnaf gan lefel y flaenoriaeth y mae Archwilio Cymru'n ei rhoi i ddiogelu'r sefydliad at y dyfodol i barhau i fod yn ystwyth wrth ymateb i heriau yn y dyfodol.'

**Suzanne Jones**
Cyfarwyddwr – Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon
Cadeirydd – Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio yn Archwilio Cymru

### Cyswllt Ansawdd Archwilio'r Bwrdd

85 Mae Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno i weithredu fel Cyswllt Ansawdd y Bwrdd i gynorthwyo'r Bwrdd i ddatblygu dealltwriaeth lawnach am ein trefniadau ansawdd archwilio, am yr heriau a wynebir gennym wrth geisio cyflawni ansawdd archwilio ac i wella tryloywder y trefniadau hynny.

86 Rydym ni'n credu bod y rôl hon yn elfen bwysig o'n huchelgais i gyflawni gwelliant parhaus mewn ansawdd archwilio.

## Rhoi'r Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd (ISQM 1) ar Waith


87 Mae ISQM1 yn ymdrin â chyfrifoldebau cwmni (gan gynnwys Archwilio Cymru) i ddylunio system rheoli ansawdd (SoQM) ar gyfer archwiliadau, ei rhoi ar waith a'i gweithredu.

88 Fe wnaeth ISQM1 hi'n ofynnol i gwmnïau roi SoQM ar waith erbyn 15 Rhagfyr 2022 yn seiliedig ar yr elfennau canlynol fel a ddangosir isod yn **Arddangosyn 3**:

- proses asesu risg
- llywodraethu ac arweinyddiaeth
- gofynion moesegol perthnasol
- derbyn a pharhau â pherthnasoedd â chleientiaid ac ymrwymiadau penodol

- perfformiad ymrwymiadau
- adnoddau
- gwybodaeth a chyfathrebu
- y broses monitro ac adfer.

**Arddangosyn 3: System Rheoli Ansawdd**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

89 Mae elfennau ISQM 1 yn adlewyrchu'n fras yr elfennau o'n model tair llinell sicrwydd a ddisgrifir uchod.

90 Mae ISQM 1 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal gwerthusiad blynyddol o effeithiolrwydd y system rheoli ansawdd, i ddechrau erbyn 15 Rhagfyr 2023.

91 Goleuwyd ein gwerthusiad gan amryw weithgareddau, gan gynnwys gweithdai asesu risg, monitro ein cofrestrau risgiau, deilliannau adolygiadau o ansawdd ffeiliau archwilio, ymarferion dadansoddi achosion sylfaenol ac ymgynghori â'r tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio ar faterion archwilio.

92 Roedd ein casgliad ar y cyfan fel a ganlyn:

> *"Mae'r system rheoli ansawdd yn darparu sicrwydd rhesymol ar gyfer y cwmni bod amcanion y system rheoli ansawdd yn cael eu cyflawni."*

93 Cyflwynwyd y casgliad hwn i'r Pwyllgor Ansawdd Archwilio a'r Tîm Arwain Gweithredol yn gynnar yn 2024.

94 Er mai ein gwerthusiad ar y cyfan oedd bod ein SoQM yn darparu 'sicrwydd rhesymol' bod ei hamcanion yn cael eu cyflawni, roedd rhai meysydd lle'r oedd angen datblygu, ac mae camau gweithredu ar y gweill. Un o elfennau blaenllaw ein

canfyddiad oedd gwreiddio'r safon fel 'busnes fel arfer' yn hytrach na'i bod yn cael ei rheoli fel ymarfer ar wahân.

95 Fe gwblhaodd QAD werthusiad o'r SoQM hefyd, a grynhoir yn **Rhan 3**.

## Datblygu'r model tair llinell sicrwydd yn y dyfodol

96 Rydym yn parhau i fonitro ble y gall fod angen datblygu'r model tair llinell sicrwydd ymhellach. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallem ddisgrifio datblygiadau o'r fath ar ffurf 'map ffordd' i ddarparu golwg gyfannol ar ddatblygiadau ac ar anghenion am fuddsoddiadau newydd yn y dyfodol.

97 Mae datblygiadau sydd yn yr arfaeth neu'n cael eu hystyried yn cynnwys:

- adolygu ein model cymorth technegol i ehangu ein cronfa o arbenigedd technegol a rhoi cymorth i gynllunio ar gyfer olyniaeth;
- adolygu a oes angen comisiynu arbenigwyr archwilwyr pellach mewn meysydd arbenigol;
- gwella ein dull o gynnal archwiliadau o grwpiau;
- archwilio'r potensial ar gyfer awtomeiddio pellach o fewn ein platfformau archwilio a phrosesau ategol eraill; ac
- ystyried a allwn ac a ddylem ddefnyddio AI i ddatblygu ein gwaith ymhellach.

# Rhan 3: Deilliannau ansawdd archwilio

## Adolygiadau oer

98 Yn **Rhan 2** o'r adroddiad hwn rydym yn disgrifio'r prosesau adolygiadau oer sydd gennym i werthuso ansawdd archwiliadau a gwblhawyd.

99 Rydym yn crynhoi deilliant yr adolygiadau hynny isod, gan ddefnyddio system sgorio pedwar pwynt:


- 1 – Da
- 2 – Derbyniol ar y cyfan
- 3 – Angen gwelliannau
- 4 – Angen gwelliannau sylweddol

100 Targed Archwilio Cymru ar hyn o bryd yw y dylai 100% o'r archwiliadau a gaiff eu samplu gael sgôr o 2 neu uwch yn yr asesiad.

### Deilliannau adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon

101 Fel a nodir yn **Rhan 2**, cafodd y rhaglen o adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon yn 2022-23 ei chynnal gan QAD. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiadau hynny yn **Arddangosyn 4** yn ôl blwyddyn ariannol yr archwiliad.

**Arddangosyn 4: deilliannau adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon yn ôl blwyddyn archwilio rhwng 2020-21 a 2022-23**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

102 Caiff yr alldro yn erbyn ein targed cyfredol ei grynhoi yn **Arddangosyn 5**.

**Arddangosyn 5: archwiliadau o gyfrifon – cymharu â'r targed**

| DPA | Targed | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfartaledd dros dair blynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi cael sgôr o 2 – derbyniol ar y cyfan - neu uwch yn yr asesiad | **100%** | 75% | 100% | 100% | 92% |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

103 Fe wnaeth yr holl ffeiliau archwilio a adolygwyd gyrraedd ein targed ansawdd ac roedd y canfyddiadau ar y cyfan gan QAD fel a ganlyn:

'Ar y cyfan, roedd y gwaith archwilio a adolygwyd gennym yn dal i fod o safon dda, gyda'r holl ymrwymiadau a adolygwyd naill ai'n dda neu'n dderbyniol ar y cyfan.'

104 Nododd QAD rai meysydd i'w gwella yn y sampl o ffeiliau a adolygwyd ac roedd thema gyffredin yn ymwneud â sut y mae timau archwilio'n cymhwyso'r fethodoleg newydd sy'n ymwneud â gweithdrefnau asesu risg a sut y mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfarwyddo faint o brofion a gyflawnir.

105 Roedd y fethodoleg newydd sy'n ymwneud â gweithdrefnau asesu risg, gyda'i phwyslais cryfach ar fynd ati'n fwy i adnabod ac asesu risg yn bwrpasol, yn newid mawr i'r Practis, lle bu dibyniaeth hanesyddol ar weithdrefnau sylweddol diffiniedig.

106 Fel a nodwyd ym **mharagraff 76**, fe gynhaliodd aelodau o'r tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio adolygiad thema mewnol yn hwyr yn 2023 o gymhwyso safon ddiwygiedig ISA 315 ar gyfer ein harchwiliadau mewn perthynas â 2022-23, ac fe adnabuwyd yr un thema ag a amlygwyd gan QAD.

107 O ganlyniad, fe ddarparom ni hyfforddiant pellach yn y maes hwn i roi cymorth i gynllunio archwiliadau 2023-24. Roedd hyn yn adeiladu ar hyfforddiant yr oeddem wedi'i ddarparu'n flaenorol, gan gynnwys ym mis Chwefror 2022 (a gynhaliwyd gan hyfforddwr allanol adnabyddus iawn); ystod o fideos byr ar gysyniadau allweddol ISA 315 (gan gynnwys adnabod ac asesu risg) a gyhoeddwyd yn ail hanner 2022; a digwyddiadau hyfforddi dros dridiau yn gynnar yn 2023 i gefnogi lansiad y dull archwilio newydd yn sgîl ISA 315.

108 Yn dilyn adroddiad drafft QAD fe gynhaliom ni sesiynau briffio gyda chyfarwyddwyr a rheolwyr cyfrifon i archwilio'r mater hwn ymhellach ac i amlygu canfyddiadau

QAD. O ganlyniad, dechreuodd ein grwpiau ymarferwyr ddarn o waith i gymharu asesiadau risg ar draws archwiliadau 2023-24 a oedd yn mynd rhagddynt.

109 Gan adeiladu ar y gweithgarwch hwn a hyfforddiant blaenorol, bydd hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau cylch archwilio 2024-25, a hwnnw'n cynnwys hyfforddiant gan ein cyflenwr hyfforddiant allanol (VantagePoint) a fydd yn cael ei ategu gan hyfforddiant ymarferol dan arweiniad y tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio.

110 Adnabu QAD rai meysydd lle ceir arfer da hefyd fel a ganlyn:


- 'dealltwriaeth drylwyr ac eglur am yr endid; ac
- ystyriaeth eglur i risgiau archwilio a chasgliad eglur yn eu cylch, er enghraifft:
  - gwneud gwaith dilynol ar faterion a godwyd gan yr archwilydd TG;
  - asesu effaith camddatganiad mewn blwyddyn flaenorol; a hefyd
  - cyfrifo amcangyfrif fel cyfran o berthnasedd perfformiad, i feintioli'r risg o gamddatganiad perthnasol.'

## Deilliannau adolygiadau oer o archwiliadau o berfformiad

111 Nid yw gwaith archwilio perfformiad yn cyd-daro â blwyddyn ariannol benodol o anghenraid. Cafodd y rhaglen o adolygiadau oer o archwiliadau o berfformiad yn 2024 ei chynnal gan QAD.

112 Mae deilliannau'r adolygiadau oer a gyflwynir yn **Arddangosyn 6** yn cyfeirio at y blynyddoedd calendr pan gwblhawyd yr adolygiadau oer.

**Arddangosyn 6: deilliannau adolygiadau oer o archwiliadau o berfformiad yn ôl blwyddyn galendr rhwng 2022 a 2024**



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

113 Caiff yr alldro yn erbyn ein targed cyfredol ei grynhoi yn **Arddangosyn 7**.

**Arddangosyn 7: archwilio perfformiad – cymharu â'r targed**

| DPA | Targed | 2022 | 2023 | 2024 | Cyfartaledd dros dair blynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi cael sgôr o 2 neu uwch – derbyniol ar y cyfan - yn yr asesiad | **100%** | 67% | 67% | 100% | 78% |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

114 Fe wnaeth yr holl ffeiliau archwilio a adolygwyd gyrraedd ein targed ansawdd ac roedd y canfyddiadau ar y cyfan gan QAD fel a ganlyn:

'Roedd y ffeiliau archwilio perfformiad a adolygwyd yn dangos lefel dda ar y cyfan o ran cydymffurfio â safonau INTOSAI.'

115 Nododd QAD fod lle i wella o ran dogfennu goruchwyliaeth gan yr arweinydd ymrwymiad; ystyriaethau i dwyll a pherthnasedd; ac ystyriaethau i annibyniaeth ar gyfer holl aelodau tîm yr ymrwymiad.

116 Fe wnaethom ddadansoddi canfyddiadau QAD, ac rydym wedi cymryd y camau gweithredu canlynol mewn ymateb:

- Rydym wedi diweddaru rhai o'r dogfennau y mae templedi i'w cael ar eu cyfer yn ein llawlyfr archwilio gyda negeseuon cynorthwyol i atgoffa timau i ddogfennu eu hystyriaeth i faterion sy'n ofynnol gan safonau INTOSAI. Byddwn yn bwydo'r canfyddiadau hyn i mewn i'n gwersi ar gyfer y dyfodol a'n cynllun datblygu lle y bo'n briodol.
- Roedd rhai o ganfyddiadau'r tîm adolygu'n ymwneud â'n hallbynnau megis eglurder, strwythur ac arddull. Yn gynharach eleni fe gychwynnom ni brosiect gyda phartner allanol i wneud hyn. Byddwn yn bwydo canfyddiadau QAD i mewn i brosesau'r prosiect.
- Mae QAD yn gwneud sylwadau ar adolygu a goruchwylio mwy cyson. Cafodd y model goruchwylio ac adolygu cyfredol ei gyflwyno gan ein llawlyfr archwilio newydd ac felly mae'n dal yn gymharol newydd i gydweithwyr. Rydym wedi dechrau cyfleu'r angen i wella trefniadau goruchwylio ac adolygu i holl

aelodau'r timau archwilio perfformiad. Byddwn hefyd yn bwydo'r canfyddiadau hyn i mewn i'n gwersi ar gyfer y dyfodol a'n cynllun datblygu lle y bo'n briodol.

117 Adnabu QAD rai meysydd lle ceir arfer da fel a ganlyn:

- defnyddio strwythur a geiriad a oedd o gymorth i ddeall yr adroddiad a'i wneud yn fwy hygyrch; ac
- ystyriaeth eglur i briodoldeb ffynhonnell tystiolaeth (cofnodion yn yr achos hwn) i ategu'r sail ar gyfer eu canfyddiadau a'u casgliadau.

## System Rheoli Ansawdd

118 Cwblhaodd QAD adolygiad o'r gwaith a wnaed gennym i roi ISMQ 1 ar waith hefyd. Roedd eu casgliad ar y cyfan fel a ganlyn:

> *"Mae'r System Rheoli Ansawdd i'w gweld yn briodol ar y cyfan i faint a natur y sefydliad".*

119 Adnabu QAD feysydd ar gyfer gwella a allai gryfhau ein SoQM. Roedd y meysydd gwella hyn yn adleisio rhai o'r canfyddiadau a adnabuwyd gennym fel rhan o'r ymarfer gwerthuso blynyddol.

120 Wrth i'r system rheoli ansawdd esblygu ac wrth i ni roi datblygiadau pellach i'r system ar waith, byddwn yn cymryd cyngor gan ein Pwyllgor Ansawdd Archwilio (gweler **paragraff 82**).

# Eich cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu ystod o adnoddau i roi cymorth gyda gwaith i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i roi cymorth i’r cyrff hynny barhau i wella’r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer pobl Cymru.

## Ewch at ein gwefan i gael y canlynol:

| | |
|---|---|
| | ein gwaith **Arfer Da** lle rydym yn rhannu arfer sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli. |
| | ein **cylchlythyr** sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da a digwyddiadau. |
| | ein **cyhoeddiadau** sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio a gwblhawyd mewn cyrff cyhoeddus. |
| | gwybodaeth am ein **blaenraglen waith archwilio perfformiad 2023-2026** a gaiff ei llunio gan weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n dadansoddiad darlun o wasanaethau cyhoeddus. |
| | amryw **offer data** a **ffeithluniau** i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well gan gynnwys ystod o fewnwelediadau eraill i graffu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. |

**Gallwch gael gwybod mwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 a hefyd Ein Strategaeth 2022-27**

Archwilio Cymru
Cwr y Ddinas
1 Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.